# PWYLLGOR ARCHWILIO

**(Neath Civic Centre A/B)**

| | |
|---|---|
| **Aelodau sy’n Bresennol:** | **Dydd Mercher, 4 Rhagfyr 2019** |
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd J.D.Morgan** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd L.M.Purcell** |
| **Cynghorwyr:** | H.C.Clarke, O.S.Davies, J.Miller, S.Renkes, R.W.Wood a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy’n Bresennol** | H.Jones, A.O'Donnell a/ac N.Headon |
| **Cynrychioli Swyddfa Archwillio Cymru:** | G.Gillett |
| **Aelod Lleyg sy’n Pleidleisio:** | J.Jenkins |

---

1. **DATGANIADAU O FUDD**

Gwnaeth yr aelod canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:-

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd H C Clarke | Parthed: Adroddiad Preifat gan y Pennaeth Cyllid gan fod ganddi fudd rhagfarnol a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais am hynny. |

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Medi, 2019.

3. **Y DIWEDDARAF AM Y PWYLLGOR ARCHWILIO - CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT TALBOT**

Derbyniodd yr aelodau ddiweddariad gan Swyddfa Archwilio Cymru ar eu rhaglen waith gyfredol a chynlluniedig.

Diolchodd y Cadeirydd i Swyddfa Archwilio Cymru am ei chymorth yn ystod y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD:** Dylid nodi'r adroddiad.

4. **ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL HYD AT 15 TACHWEDD 2019**

Derbyniodd y pwyllgor yr Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol hyd at 15 Tachwedd 2019 fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Nodwyd bod swydd yr Archwilydd Cynorthwyol wedi'i llenwi yn effeithiol o 6 Ionawr 2020. Mae'r swydd Swyddog Twyll yn parhau i fod yn wag, roedd Aelodau'n gefnogol o hysbysebu'r swydd yn allanol ar ddechrau 2020.

Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch Cronfeydd Answyddogol mewn ysgolion; nodwyd bod y term yn hanesyddol ac nid arian yr awdurdod oedd hwn. Esboniodd y swyddogion y dylai'r holl lywodraethwyr fod yn ymwybodol bod Cronfa Answyddogol yn bodoli a chyfrifoldeb pob corff llywodraethu yw sicrhau bod yr arian hwn yn cael ei wario'n briodol a bod y gronfa'n cael ei rheoli'n broffesiynol. Pwysleisiwyd y caiff adroddiad am ganfyddiadau ac argymhellion ei ddosbarthu i'r holl Benaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr a chaiff yr arweiniad presennol ei ddiweddaru er mwyn darparu arweiniad mwy cynhwysfawr ar gyfer gweithrediad y cronfeydd hyn.

Eglurwyd y rheswm dros ddileu archwiliadau Datganiadau Gyrru Aelodau e.e. gan na chaiff Aelodau eu hystyried yn weithwyr nid oes gofyn iddynt gydymffurfio â Pholisi Gyrru yn y Gweithle'r awdurdod.

Darparwyd esboniad i'r aelodau ynghylch archwiliad o'r Cyfarfodydd Strategaeth Cam-drin Proffesiynol a gynhelir yn y flwyddyn newydd.

**PENDERFYNWYD:** Dylid nodi'r adroddiad.

5. **MONITRO RHEOLI'R TRYSORLYS 2019/2020**

Derbyniodd y pwyllgor wybodaeth Monitro Rheoli'r Trysorlys 2019/2020 fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** Dylid nodi'r adroddiad.

6. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**PENDERFYNWYD:** Yn unol ag Adran 100A(4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y cyhoedd o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a diffinnir ym Mharagraff 12, 13 ac 14 o Ran 4 Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

7. **ARCHWILIADAU LLE DEFNYDDIWYD GRADDFA RISG 3, 4 NEU 5 A MANYLION YR YMCHWILIADAU ARBENNIG**

(Cadarnhaodd y Cynghorydd H C Clarke ei budd ar y pwynt hwn a gadawodd y cyfarfod)

Derbyniodd aelodau'r diweddaraf am archwiliadau ymchwiliadau arbennig a gynhaliwyd yn y chwarter diwethaf, yn ogystal ag ymchwiliadau arbennig sydd ar waith ar hyn o bryd.

Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith y byddent yn hapus i ddosbarthu copïau o'r adroddiadau hyn yn llawn i aelodau os byddent yn gofyn amdanynt cyn y cyfarfod.

Cafwyd trafodaeth ynghylch cynrychiolwyr yn mynd i gyfarfodydd pwyllgor, cytunwyd byddai'r Pennaeth Cyllid yn dod â braslun, i'w gytuno, i'r cyfarfod nesaf.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

**CADEIRYDD**